# LLOYD (TEULU), Peterwell, Sir Aberteifi

WALTER LLOYD (bu farw 1747), bargyfreithiwr Cyfraith,

mab Walter Lloyd, Foelallt, Sir Aberteifi. Priododd (yn 1713 y mae'n debyg), Elisabeth, merch ac aeres Daniel Evans, Peterwell, gerllaw Llanbedr-Pont-Steffan (siryf Sir Aberteifi yn 1692). Bu'n faer Aberteifi 1710, 1711, 1714, 1718, a 1721, yn atwrnai-cyffredinol De Cymru (sef dros siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, a Phenfro), ac yn farnwr y llysoedd 'Equity' yng Ngogledd a De Cymru. Yr oedd yn aelod seneddol dros sir Aberteifi, 1734-42, pleidleisiodd dros y confensiwn yn 1739, eithr collodd ei sedd yn herwydd petisiwn, yn Chwefror 1742. Bu farw yn 1747.

Dilynwyd Walter Lloyd yn ei stadau ac yn swydd atwrnai-cyffredinol y tair sir gan ei fab hynaf (sef y mab hynaf a fu byw), JOHN LLOYD (bu farw 1755), a bu'n aelod seneddol sir Aberteifi o 1747 hyd ei farwolaeth yn 1755. Priododd ef (1), Elizabeth, merch a chydaeres Syr Isaac le Hemp (neu Le Hoop), g r a enwir gan Paul Whitehead yn ei *The State Dunces*; a (2) - Savage. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i amryw o w r amlwg ei ddydd - Henry Fox (Lord Holland wedi hynny), Syr Charles Hanbury Williams, a Richard Rigby, y Postfeistr Cyffredinol. Yn 1750 daeth i feddu stad Maes-y-felin ar farwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith, Syr Lucius Christianus Lloyd, y 3ydd barwnig (a'r diwethaf). Bu farw yn ddiblant yn 1755 a'i gladdu yn Llanbedr-Pont-Steffan.

Dilynwyd John Lloyd gan ei frawd iau, HERBERT LLOYD (1719 - 1769), a oedd yn byw yn Foelallt, plwyf Llanddewibrefi. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn 1738, a derbyniwyd ef yn fargyfreithiwr (Inner Temple) yn 1742. Yn y flwyddyn honno priododd ei wraig gyntaf, - Bragg, swydd Essex; bu hi farw yn 1743. Ei ail wraig oedd Anne, merch William Powell, Nanteos, a gweddw Richard Stedman, Strata Florida. Bu'n aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Aberteifi o 1761 hyd 1768, eithr bu'n aflwyddiannus fel ymgeisydd ac fel petisiynydd yn 1769. Ar 2 Tachwedd 1761 cyflwynodd i'r brenin Siôr III anerchiad oddi wrth ei etholwyr yn llongyfarch y brenin ar ei esgyniad i'r orsedd. Fe'i gwnaethpwyd yn farwnig ar 26 Ionawr 1763. Yr oedd yn ddyn golygus ac o gymeriad cadarn, eithr yn tueddu i fod yn awdurdodol ac yn unbenaethol; os ydyw y traddodiad yn Sir Aberteifi i'w gredu bu Syr Herbert yn gyfrifol am amryw weithredoedd cas a chreulon (y mae cyfeiriad at un weithred mewn drama Gymraeg). Pan oedd yn r ieuanc bu'n arweinydd amryw gynulliadau terfysglyd, e.e. yr ymosodiad ar Lewis Morris yn 1753 pan oedd hwnnw'n gofalu am weithydd mwyn y brenin yn Esgairmwyn. Rhoes derfyn ar ei fywyd yn Llundain ar 19 Awst 1769, a'i stadau'n ddwfn mewn dyled. Gyda'i farw ef daeth un o deuluoedd Sir Aberteifi, a oedd yn argoeli bod yn un o'r rhai mwyaf ei ddylanwad yn Ne Cymru, i'w derfyn ar yr ochr wrywol.

## Awdur

**Major Herbert John Lloyd-Johnes**, (1900 - 1983)

## Ffynonellau

G. Eyre Evans, *Lampeter* (1905), 1905

William Edmunds, *On some old families in the neighbourhood of Lampeter, Cardiganshire* (Dinbych 1860)

L. E. Lloyd-Theakston and John Davies, *Some family records & pedigrees of the Lloyds of Allt yr Odyn, Castell Hywel, Ffos y Bleiddiaid, Gilfach Wen, Llan Llyr and Waun Ifor* (Rhydychen 1912-1913), 1913

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733829

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu